CYLCHGRAWN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# CALON TÂN

RHIFYN Y GWANWYN 2025

## YMARFER LLOSGI DAN REOLAETH

TUDALEN 8






## SESIYNAU YMGYSYLLTU GYDA'R GYMUNED

TUDALEN 18

SIOE DEITHIOL CYDNERTHEDD CENEDLAETHOL CYMRU
TUDALEN 3

DATHLU DYDD GŴYL DEWI GYDA CHÂN
TUDALEN 10

DIWRNOD AGORED DRONAU
TUDALEN 16

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| SIOE DEITHIOL | 3 |
| CYFATHREBU'R RHANBARTHAU | 4 |
| CHWARAEON A CHYMDEITHASU | 7 |
| GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH | 8 |
| DYDD GŴYL DEWI | 10 |
| SIARTER I DEULUOEDD MEWN PROFEDIGAETH | 11 |
| ELUSEN Y DIFFODDWYR TÂN | 12 |
| DIGWYDDIADAU | 13 |
| NEWYDDION STAFF | 14 |
| DYSGU A HYFFORDDIANT | 16 |
| CYNLLUN RHEOLI RISG CYMUNEDOL | 18 |
| SWYDDI | 20 |


**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.**

**Dyma beth a'n cadwodd yn brysur y mis diwethaf:**

- **1588** Galwadau i'r Ganolfan Rheoli
- **788** Digwyddiadau a fynychwyd
- **53** O danau mewn adeiladau
- **288** O alwadau ffug
- **8** Anifail wedi'u Hachub
- **5** O ddigwyddiadau achub dwr
- **49** O wrthdrawiadau traffig ffyrdd
- **63** O achosion o roi cymorth i asiantaethau eraill











## SIOE DEITHIOL CYDNERTHEDD CENEDLAETHOL CYMRU

**Ddydd Llun, 3 Mawrth, dechreuodd Sioe Deithiol Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru yng Nghanolfan Hyfforddi Earlswood Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC).**

Gan deithio ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru - GTACGC, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) – nod y sioe deithiol oedd cynyddu ymwybyddiaeth staff y Gwasanaeth o'r galluoedd a'r darpariaethau Cydnerthedd Cenedlaethol sydd ar gael yng Nghymru. Mae'r sioe deithiol, sy'n cael ei chyflwyno drwy gyfuniad o sesiynau damcaniaethol ac ymarferol, yn cyflwyno gwybodaeth am yr adnoddau a'r sgiliau sydd ar gael ledled Cymru i gynorthwyo mewn digwyddiadau ac i gefnogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub lleol i ddatrys y cais gweithredol.

Rhwng dydd Llun, 3 Mawrth a dydd Iau, 6 Mawrth, ymwelodd y Sioe Deithiol Cydnerthedd Cenedlaethol â Chanolfan Hyfforddi Earlswood yn Abertawe, Canolfan USAR yng Ngorsaf Dân yr Eglwys Newydd, Gorsaf Dân y Drenewydd a Gorsaf Dân y Rhyl.

Mae Tîm USAR Cymru ar alwad 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn i ymateb i ddigwyddiadau a thrychinebau ledled y DU, i ddarparu gallu chwilio ac achub ac i gefnogi ymdrechion dyngarol.

Sioe Deithiol Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru

## Y GORLLEWIN

# YMARFERIAD HYFFORDDI LLANDYSUL YN LLWYDDIANT MAWR!

**Ddydd Llun, 17 Mawrth, cynhaliodd aelodau criw Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) o Orsafoedd Tân Llandysul a Chastellnewydd Emlyn ymarferiad hyfforddi Chwilio ac Achub o'r enw 'Graig', a gynhaliwyd yn Fflatiau Heol y Graig, Llandysul.**


Roedd yr ymarferiad yn galluogi'r criw i ymarfer ymatebion Chwilio ac Achub, gan roi cyfle i ddatblygu a mireinio eu parodrwydd ar gyfer digwyddiadau go iawn. Fflatiau Heol y Graig oedd y lleoliad delfrydol i gynnig amgylchedd realistig i'r criw. Roedd yn caniatáu iddynt ymarfer Gweithdrefnau Rheoli Digwyddiadau, profi eu setiau Offer Anadlu, gwneud gwaith achub heriol a gweithio mewn ardaloedd risg yn chwilio am anafiadau.

Dywedodd y rheolwr gwylfa Iwan Jones:

***"Roedd ymarferiad 'Graig' yn gyfle dysgu ardderchog i'r criw, gan roi hyfforddiant iddynt a gynlluniwyd i wella parodrwydd ar gyfer digwyddiadau go iawn a chryfhau gwaith tîm. Hoffem ddiolch i 'gymdeithas dai 'Tai Barcud' am gael defnyddio Fflatiau Heol y Graig ar gyfer yr ymarferiad hwn. Rhoddodd y rhain amgylchedd realistig i ni i'r criw ymarfer."***

Diolch i bawb a gymerodd ran ac i'r cyhoedd am eu dealltwriaeth yn ystod yr ymarferiad.

Os ydych chi wedi ystyried dod yn ddiffoddwr tân ar alwad, mae GTACGC yn recriwtio ar hyn o bryd ym mhob un o'n Gorsafoedd Tân Ar Alwad. Ewch i'n **gwefan** am fwy o wybodaeth neu i lenwi ffurflen mynegi diddordeb.





## Y GOGLEDD





# YMARFER HYFFORDDI ADEILADAU UCHEL YM MHRIFYSGOL ABERYSTWYTH

**Cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ymarfer hyfforddi adeiladau uchel yn Adeilad Llandinam Prifysgol Aberystwyth yn ddiweddar.**

Mynychwyd yr ymarferiad gan griwiau o Orsafoedd Tân Aberystwyth, Aberaeron, Tregaron a Machynlleth ac efelychodd dân mewn adeilad uchel, gyda phobl yn sownd y tu mewn i'r adeilad.

Roedd y sesiwn yn gyfle i'r criwiau ymgyfarwyddo â gweithdrefnau tân mewn adeiladau uchel y Gwasanaeth, yn ogystal â gweithredu System Rheoli Digwyddiad, rhedeg pibellau i fyny sawl rhes o risiau, cynnal technegau codi a chario a defnyddio amrywiaeth o offer ymateb brys.

Roedd aelodau'r criw hefyd yn gallu ymarfer defnyddio system pibell sych, sy'n galluogi Diffoddwyr Tân i gael mynediad i ddŵr o bob llawr unigol mewn adeilad uchel.

**Ymarfer Hyfforddi Adeiladau Uchel ym Mhrifysgol Aberystwyth**

Y DE

# LLWYDDIANT CHWARAEON YN RHANBARTH Y DE

**Llongyfarchiadau mawr i'r diffoddwr tân Luke Fisher o Orsaf Ganolog Abertawe a'r diffoddwr tân Scott Davies o Orsaf Port Talbot a gafodd eu dewis yn ddiweddar i gynrychioli Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i chwarae i Dîm Rygbi Gwasanaethau Tân ac Achub Prydain Fawr.**

Dim ond 11 o chwaraewyr rygbi Cymru gafodd eu dewis, 1 o GTACGC! Ac i goroni'r cyfan fe wnaethon nhw ennill eu gêm yn erbyn tîm y Llynges Frenhinol yn Portsmouth, 28-19.

***Da iawn y ddau!***









# DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

**Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.**

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:

ROWNDERI ROUNDERS

CLWB CRICED CRICKET CLUB

CLWB BOWLIO BOWLS CLUB

CLWB BEICIO CYCLING CLUB

CLWB PYSGOTA PLY FLY FISHING CLUB

CLWB PÊL DROED FOOTBALL CLUB

CLWB GOLFF GOLF CLUB

FFOCWS CHWARAEON MENYWOD FEMALE SPORTS FOCUS

CLWB RYGBI RUGBY CLUB

CLWB TRIATHLON TRIATHLON CLUB

CLWB FFITRWYDD FITNESS CLUB

**Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg**

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau. Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - s.philpott@mawwfire.gov.uk

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

# YMARFER LLOSGI DAN REOLAETH YM MHENLAN

**Ddydd Iau, 6 Mawrth, gweithiodd Tîm Lleihau Tanau Bwriadol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) a'r criw ar alwad o Orsaf Dân Abergwaun mewn cydweithrediad â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gynnal ymarfer llosgi dan reolaeth ym Mhenlan, Cwm Gwaun, Sir Benfro.**

Cynhaliwyd yr ymarfer i ddangos dull partneriaeth o liniaru tanau gwyllt a rheoli llystyfiant, yn ogystal â gwella galluoedd diffodd tanau a chryfhau ein hymateb cymunedol i danau gwyllt. Roedd yr ardaloedd a dargedwyd ar gyfer yr ymarfer llosgi hwn yn fach, gan losgi cyfanswm o bum ardal fach oedd yn gorchuddio tua 1% o safle Penlan.

Dywedodd Arwel Evans - Swyddog Cadwraeth Ffermydd o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

*"Ar ôl gweithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am sawl blwyddyn ar ymgysylltu a hyrwyddo llosgi dan reolaeth, yn ogystal â defnyddio'r ICutter i ehangu a chryfhau ein rhwydwaith o Fylchau Tân, roedd yn garreg filltir yn ein partneriaeth i wahodd y Gwasanaeth i ymuno â ni ar y safle.*

*Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr, nid yn unig wrth reoli'r tir yn gynaliadwy ond hefyd wrth feithrin gwaith cydweithredol rhwng y ddau awdurdod. Heb gymorth a brwdfrydedd y Gwasanaeth Tân, ni fyddai cynnal yr ymarfer llosgi rhagnodedig hwn wedi bod yn bosibl."*

Trwy rannu adnoddau, gwybodaeth ac arbenigedd rydym yn dysgu mesurau atal mwy effeithiol, yn anelu at leihau risgiau tanau gwyllt, a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd i amddiffyn pobl a'r amgylchedd naturiol.

Am ragor o wybodaeth am Losgi dan Reolaeth, ewch i'n gwefan: **#LlosgiAmddiffyn**

Cofiwch fod dechrau tân bwriadol yn drosedd. Gallwch roi gwybod yn ddienw am dân bwriadol drwy ffonio **CrimeStoppers Cymru** ar 0800 555111. Mewn argyfwng, ffoniwch 999 bob tro.



# ATGOFFA LLOSGI DAN REOLAETH

**Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn atgoffa ffermwyr a thirfeddianwyr y bydd y ffenestr i losgi glaswelltir dan reolaeth yn yr ucheldiroedd yn cau ddydd Llun, 31 Mawrth 2025.**

O 1 Ebrill, waeth beth fo'r bwriad a'r lleoliad, bydd hi'n anghyfreithlon cynnau tân glaswellt a bydd yn cael ei ystyried yn llosgi bwriadol. Os gwelwch unrhyw weithgaredd amheus sy'n gysylltiedig â thân glaswellt bwriadol, gallwch roi gwybod amdano i CrimeStoppers, yn ddienw, drwy ffonio 0800 555 111. Gallwch hefyd ffonio'r Heddlu ar 101.

**Mewn argyfwng, ffoniwch 999 bob tro.**

# #DOETHIDANAUGWYLLT

Bydd Bwrdd Tân Gwyllt Cymru yn lansio ymgyrch #DoethiDanauGwyllt o 1af Ebrill.

Mae'r Bwrdd yn ddull aml-asiantaeth o ddeall yn well y risg y mae tanau gwyllt yn ei achosi i'r amgylchedd a chymunedau Cymru, a rheoli'r risg.

Caiff ei gyflwyno trwy Siarter Tanau Gwyllt Cymru, a'i nod yw adeiladu ar y sylfaen o wybodaeth a phrofiad a enillwyd dros y degawd diwethaf, a hynny gan ystyried perygl hollbresennol newid hinsawdd yn ogystal â chydnabod gwerth annog cymunedau ac unigolion i weithio gyda'i gilydd i ddiogelu'r ardaloedd lle maent yn byw ac yn gweithio ac ardaloedd maent yn ymweld â nhw.

Nod ein hymgyrch **#DoethiDanauGwyllt** yw addysgu unigolion am yr arferion gorau o ran osgoi ac atal tanau gwyllt yng Nghymru.

Am fwy o wybodaeth am **#DoethiDanauGwyllt**, ewch i'n gwefan.



DYDD GŴYL DEWI

# DATHLU DYDD GŴYL DEWI

**Buom yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth y 1af gyda fersiwn arbennig o'n hanthem genedlaethol, Hen Wlad fy Nhadau!**

Rydym yn ffodus bod ein Swyddog y Gymraeg, Llew Davies, hefyd yn ganwr dawnus. Mwynhewch fersiwn Llew o'n hanthem, a pherfformiwyd yng Ngorsaf Dân Aberhonddu, ar ein [sianel YouTube](#).












SIARTER I DEULUOEDD MEWN PROFEDIGAETH

# LLOFNODI SIARTER AR GYFER TEULUOEDD SYDD WEDI DIODDEF PROFEDIGAETH DRWY DRASIEDI GYHOEDDUS

**Mae sefydliadau ledled Cymru wedi llofnodi siarter sy'n golygu eu bod yn ymrwymo i ymateb i drasiedïau cyhoeddus mewn ffordd agored, dryloyw ac atebol**

Mae'r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Gyhoeddus yn galw am newid diwylliannol yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu â theuluoedd mewn profedigaeth, gan sicrhau bod y gwersi o drychineb Hillsborough 1989 a'r hyn a ddigwyddodd wedi hynny yn cael eu dysgu er mwyn atal pobl rhag cael yr un profiad yn y dyfodol.

Mae sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, heddluoedd, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a gwasanaethau tân ac achub wedi ymrwymo i gynnig cymorth i deuluoedd sy'n dioddef profedigaeth a'r gymuned ar ôl digwyddiad mawr, gydag ymrwymiad clir i bobl ac i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad.

Dywedodd Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Roger Thomas KFSM:

*"Mae GTACGC yn falch o gefnogi'r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Gyhoeddus.*

*Mae GTACGC wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac mae'n bwysig bod y gwaith hwn yn parhau y tu hwnt i'n dyletswyddau mewn digwyddiadau brys, drwy ddarparu cymorth i deuluoedd mewn profedigaeth.*

*Heddiw, rydym yn ymuno â nifer o sefydliadau eraill ledled Cymru gydag ymrwymiad o'r newydd i wasanaeth cyhoeddus ac addewid i wreiddio'r siarter hon yn ein hyfforddiant a diwylliant ein sefydliad, fel ei fod yn dod yn elfen o'n hymateb brys."*

[Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Llofnodi Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Gyhoeddus](#)



ELUSEN Y DIFFODDWYR TÂN

# CYFLWYNO CLAIRE O ELUSEN Y DIFFODDWYR TÂN

**Helô bawb! Claire ydw i, eich Codwr Arian Rhanbarthol newydd yn Elusen y Diffoddwyr Tân, yn cwmpasu Canolbarth a Gorllewin Cymru, De Cymru, Swydd Gaerloyw, Henffordd a Swydd Gaerwrangon, Swydd Rhydychen, Swydd Warwick, a Gorllewin Canolbarth Lloegr.**

Ychydig o wybodaeth amdanaf i - cefais fy magu yng Nghanolbarth Cymru ar fferm y teulu, rhwng Llanfair-ym-Muallt a'r Gelli Gandryll, ac es i Brifysgol Aberystwyth, felly Canolbarth a Gorllewin Cymru yw fy nghartref heb os.

Dros y misoedd nesaf, byddaf yn ymweld â gwahanol ddigwyddiadau. Hyd yn hyn, fe welwch fi yn y Gynhadledd Ar Alwad ym mis Ebrill a Her Diffoddwyr Tân Cymru – rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gwrdd â'r rhai ohonoch sy'n mynd.

Os ydych yn ansicr am fy rôl, rwyf wedi cymryd yr awenau oddi wrth Jeff, a ymddeolodd ym mis Mawrth 2024 (efallai y bydd llawer ohonoch yn ei gofio!). Rwy'n gyffrous i gychwyn a gwneud yn siŵr bod gennych yr holl gefnogaeth codi arian sydd ei hangen arnoch. P'un ai ydych chi'n cynllunio diwrnod agored, digwyddiad golchi ceir, Paned gyda'r Criw, digwyddiad codi arian dros y Nadolig, neu'n ymgymryd â her fel marathon, rydw i yma i helpu.

Peidiwch ag oedi i estyn allan - byddwn wrth fy modd yn clywed gennych chi a chefnogi eich ymdrechion codi arian sut bynnag y gallaf. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd!






## Claire McMinn

Codwr Arian Rhanbarthol – De Cymru a Gorllewin Lloegr

E: cmcminn@firefighterscharity.org.uk

M: 0734 205 9975



# DIGWYDDIADAU CYFFROUS Y DYFODOL!







## Yn amrywio o ddiwrnodau agored llawn gweithgareddau i olchi ceir a diwrnodau profiad, mae rhywbeth at ddant pawb

- 29ain Mawrth – Golchfa Ceir Doc Penfro
- 29ain Mawrth – Diwrnod Agored Borth
- 31ain Mawrth – Noson Recriwtio Y Gelli Gandryll
- 17eg Mai – Pride Abertawe 2025
- 26ain – 31ain Mai – Eisteddfod yr Urdd 2025
- 7fed Mehefin – Her Diffoddwyr Tân Cymru 2025
- 21ain Mehefin – Diwrnod Agored Castell Newydd Emlyn
- 21ain – 24ain Gorffennaf – Sioe Frenhinol Cymru

Mae yna groeso cynnes i bawb yn ein digwyddiadau cymunedol, gan gynnig cyfle gwych i chi gysylltu â'ch diffoddwyr tân lleol a chefnogi'r digwyddiadau a arweinir gan y gorsafoedd.

Nodwch y dyddiadau yn eich calendrau a chadwch olwg ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf a manylion am y digwyddiadau.

**Peidiwch â cholli allan ar y cyffro - dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol neu ewch i'n Tudalen Digwyddiadau, a gwahoddwch eich ffrindiau a'ch teulu.**

## Dilynwch ni ar



# DATHLU HANES YSBRYDOLEDIG NERYS THOMAS GYDAG ELUSEN Y DIFFODDWYR TÂN

**Mae Nerys Thomas, Swyddog Ymateb Rhanbarth Canol y Gwasanaeth, wedi dangos dewrder wrth sôn am ei thaith bersonol gydag Elusen y Diffoddwyr Tân, ac rydym yn falch o rannu ei hanes hi. Mae stori Nerys yn tynnu sylw at y gefnogaeth a'r gofal anhygoel y mae'r elusen yn ei roi.**

Mae profiad Nerys yn dangos pa mor hanfodol yw Elusen y Diffoddwyr Tân i fywydau'r rhai sy'n gwasanaethu ein cymunedau. Mae ei stori dangos ymroddiad yr elusen ac mae'n ysbrydoliaeth i bob un ohonom.

Ewch i ddarllen y stori yn ei chyfanrwydd a dysgu mwy am waith effeithiol Elusen y Diffoddwyr Tân, sydd ar gael i **HOLL** staff y Gwasanaeth – Llyfr Gwyrdd, Llyfr Llwyd, a'u Teuluoedd.

Darllenwch y stori lawn ar wefan Elusen y Diffoddwyr Tân

## Diolch am rannu dy stori Nerys!





# Y DIFFODDWR TÂN MEL HERBERT YN CWBLHAU HANNER MARATHON MEWN CIT DIFFODD TÂN LLAWN

**Ddydd Sul, 16 Mawrth, cwblhaodd Mel Herbert, Diffoddwr Tân Ar Alwad yng Ngorsaf Dân Pont-iets, Hanner Marathon Mawr Cymru – mewn cit diffodd tân llawn.**

Ar ôl sawl wythnos o baratoi, cwblhaodd Mel y ras 13 milltir o hyd yn gwisgo tiwnig diffodd tân, trowsus a set offer anadlu - a'r set honno'n pwyso tua 13 pwys ar ei phen ei hun - mewn ychydig llai na thair awr.

Penderfynodd Mel ymgymryd â'r her o gwblhau'r ras, a ddechreuodd ac a ddaeth i ben ym Mharc Gwledig Pen-bre ac a oedd yn cynnwys Porth Tywyn, i godi arian pwysig ac ymwybyddiaeth o Elusen y Diffoddwyr Tân. Mae'r Elusen yn cynnig cymorth gydol oes i les meddyliol, corfforol a chymdeithasol diffoddwyr tân sy'n gwasanaethu a'r rhai sydd wedi ymddeol, ac i'w teuluoedd a phersonél eraill y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Wrth siarad am gwblhau Hanner Marathon Mawr Cymru, dywedodd Mel:

*"Roedd y gefnogaeth a gefais gan y dorf a'm cyd-redwyr yn anhygoel.*

*Rwy'n siŵr y gellid bod wedi clywed y dorf filltiroedd i ffwrdd ac roedd eu cymeradwyaeth yn fy nghadw i fynd tuag at y llinell derfyn. Fe wnes i hyd yn oed dynnu fy nghlustffonau tuag at ddiwedd y ras i allu ymgolli yn y cyfan!*

*Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'm cyd-aelodau o'r criw yng Ngorsaf Dân Pont-iets sydd wedi fy annog drwy gydol fy hyfforddiant ac a ddaeth i ddangos eu cefnogaeth ar y diwrnod. Roedd y digwyddiad wedi'i drefnu'n dda iawn ac roedd yn brofiad anhygoel na fyddaf byth yn ei anghofio."*

Ar hyn o bryd mae Mel wedi codi dros £560 ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân ac mae'n dal i godi arian trwy ei thudalen JustGiving.

# LLWYDDIANT DIWRNOD AGORED DRONAU

**Yn ddiweddar, fe wnaeth aelodau Tîm Dronau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) drefnu Diwrnod Agored Dronau ar gyfer personél y Gwasanaeth ym Mhencadlys y Gwasanaeth.**

Yn y sesiwn, daeth staff Gweithredol ac Anweithredol ynghyd i ddysgu am y dechnoleg sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi gwaith ymateb, atal, ac amddiffyn ar yr ochr weithredol.

Roedd y diwrnod yn cyd-fynd â themâu gweithredol penodol, ac yn canolbwyntio arnynt: rheoli digwyddiadau, tanau gwyllt, a rhagchwilio.

Bu sawl arddangosiad ymarferol drwy gydol y dydd, a digonedd o gyfleoedd i drafod. Roedd yn llwyddiant mawr, ac roedd hi wir yn fuddiol cael gweld y datblygiadau technolegol hyn.

ERTHYGL LLAWN











# CYFLWYNIAD DIOGELWCH FFYRDD VALERO

**Ddydd Mawrth 11 Mawrth, aeth Michelle Williams a Lee Simmons o dîm Diogelwch Ffyrdd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i Burfa Valero i roi cyflwyniad Diogelwch ar y Ffyrdd 'Domino Workplace' i aelodau staff.**

Nod y cyflwyniad oedd addysgu Rheolwyr Safle Valero, gan eu grymuso i ledaenu gwybodaeth hanfodol am Ddiogelwch ar y Ffyrdd i'w gyrwyr a gwella ymddygiadau gyrru. Yn y prynhawn cynhaliwyd sesiwn galw heibio er mwyn i staff ddefnyddio Gogls Class VR a gofyn cwestiynau yn ymwneud â Diogelwch ar y Ffyrdd.

Dywedodd Stephen Parks, Cydlynydd VPP Diogelwch Safle Purfa Valero:

*"Ar hyn o bryd rydym yn cynnal ymgyrch i hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch cerbydau ym Mhurfa Valero Penfro, gan sicrhau bod yr holl weithwyr, contractwyr ac ymwelwyr yn deall ac yn cadw at arferion gyrru diogel i atal damweiniau a chynnal amgylchedd gwaith diogel.*

*Mae ein cymunedau lleol yn bwysig inni ac rydym yn annog pob gweithiwr i ddangos ymddygiad gyrru da wrth yrru i'r gwaith ac yn ôl. Fe wnaeth ein cynulleidfa fwynhau'r cyflwyniad a roddodd GTACGC yn ein Hwb Iechyd a Diogelwch misol yn fawr, ac rydym am ddweud diolch yn fawr gan holl dîm Diogelwch Valero."*

Am fwy o wybodaeth am Ddiogelwch ar y Ffyrdd, ewch i: Ar y Ffordd




CRHRC

# SESIYNAU GALW HEIBIO ER MWYN YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED YN LLWYDDIANT YSGUBOL

**Yn ddiweddar, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) gyfanswm o 34 o sesiynau galw heibio er mwyn ymgysylltu â'r gymuned mewn amrywiaeth o wahanol safleoedd a lleoliadau dros chwe sir Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

Diben y sesiynau galw heibio oedd casglu mewnbwn gwerthfawr gan breswylwyr a rhanddeiliaid, i helpu i nodi unrhyw faterion neu heriau y gallai'r Gwasanaeth eu hwynebu wrth gyflawni Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 (CRhRC 2040). Ochr yn ochr â'r sesiynau galw heibio, cynhaliodd GTACGC ddwy weminar ar-lein a gafodd eu harwain gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân Iwan Cray, cyfarfodydd gydag aelodau Seneddol, aelodau o'r Senedd a Chynghorwyr Tref a Chymuned i gael cymaint o adborth â phosibl.

Bu'r sesiynau rhyngweithiol yn llwyddiant ysgubol gyda chyfanswm sylweddol o 721 o arolygon 'Addasu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru…gyda'n gilydd' yn cael eu cwblhau. Derbyniwyd 130 o arolygon ychwanegol 'Dweud Eich Dweud' gan ystod eang o randdeiliaid, a oedd hefyd yn rhoi eu barn a'u disgwyliadau am Wasanaeth Tân ac Achub modern. Roedd nifer fawr o ymwelwyr a llawer iawn o ymgysylltu ym Mhrifysgol Abertawe, a chroesawodd y sesiwn yng Ngorsaf Dân Crucywel dros 100 o bobl!

Dywedodd Amy Richmond-Jones, Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad CRhRC:

***"Fe wnaeth ein sesiynau galw heibio cymunedol ragori ar ein disgwyliadau o ran cyfranogiad ac ansawdd yr adborth a gafwyd. Rydym yn deall bod gwrando ar farn staff, cymunedau, sefydliadau partner, undebau llafur, aelodau etholedig a phobl ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru yn hynod bwysig.***

***Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn allweddol wrth lywio ein camau nesaf i sicrhau bod ein gweithredoedd yn cyd-fynd â disgwyliadau'r gymuned.***

***Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y sesiynau ac a dreuliodd amser yn rhoi eu barn, ac edrychwn ymlaen at y camau nesaf yn y broses."***

Mae'r daith hon, wrth gwrs, ymhell o fod drosodd a bydd cam nesaf CRhRC 2040 yn golygu gwerthuso'r wybodaeth a gasglwyd drwy ymarfer cwmpasu. Mae cwmpasu yn golygu ymgysylltu â phartïon â diddordeb i drafod sut y dylid mynd i'r afael â heriau a materion sy'n hysbys i'r Gwasanaeth yn ogystal â'r rhai a amlygwyd yn rhan o'r sesiynau galw heibio er mwyn ymgysylltu â'r gymuned.

Mae amser o hyd i gwblhau'r arolwg, felly ewch draw i Gynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 i'w lenwi – mae eich barn chi yn wirioneddol bwysig!







SWYDDI

# GWEITHIO GYDA NI!

**Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.**

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

## Buddion

- Cyfraddau cyflog cystadleuol - wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.1% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).
- Gwyliau Blynyddol hael – 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg – Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

**GWELD Y SWYDDI GWAG CYFREDOL >**












# DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?

**Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!**



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# #MwyNaDimOndTanau
# #MoreThanJustFires



**www.tancgc.gov.uk**

CYLCHGRAWN CALON TÂN - RHIFYN Y GWANWYN 2025